

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

Annwyl Rieni / Gwarcheidwaid, Staff a Disgyblion - gobeithio eich bod yn cadw'n iach ac yn ddiogel ac yn parhau i ddilyn y canllawiau wrth ymateb i her y Coronafeirws.



Trafodaethau Lles - roedd y galwadau ffôn ar ddechrau'r wythnos hon yn rhoi darlun clir fod nifer fawr o bethau yn gweithio'n dda gyda chi fel teuluoedd a'ch bod yn ymdopi'n bositif mewn amgylchiadau newydd a ffyrdd gwahanol o weithio. Serch hynny roedd rhai ohonoch yn naturiol yn gweld y cynnod yma yn un heriol. Cofiwch fod yr ysgol yma i'ch cefnogi ac mi fyddwn yn cyfathrebu'n wythnosol gyda rhai ohonoch er mwyn eich cynorthwyo gyda rhai agweddau penodol.

Gweithio yn Teams - rwy'n ymwybodol fod nifer ohonoch o Flynnydoedd 1, 2, 3, 4, 5 a 6 wedi dechrau gweithio ar y tasgau sydd ar Teams o fewn Hwb ac mae'n amlwg fod y mwyafrif ohonoch yn cael hwyl arni. Mae'r galwadau ffôn gan yr athrawon i bob cartref wedi rhoi darlun clir i ni o'r pethau sy'n gweithio'n dda a'r agweddau sydd angen mwy o gymorth arnoch. Un o'r agweddau oedd angen cyfarwyddiadau pellach oedd sut i uwch lwytho eich gwaith yn ôl i Teams er mwyn ei ddychwelyd i'r athrawon ar ôl ei gwblhau. Mae'r fideo yma gobeithio yn dangos i chi sut mae gwneud hyn

<https://www.j2e.com/0111/Eryl/Aseiniadau+Disgybl.mp4/>

Cofiwch nad oes angen poeni os na fydd y system yn gweithio i chi, mae rhai yn dewis tynnu llun o'r gwaith a'i ddanfon fel e-bost i'r athrawon ac mae eraill yn cadw'r gwaith mewn ffeil yn y cartref.

Mae gweithgareddau'r Meithrin a'r Derbyn sydd ar wefan yr ysgol yn gweithio'n dda ac yn cael ymateb cadarnhaol gennych.

Offer Cyfrifiadurol – roedd rhai ohonoch yn sôn ei bod hi'n medru bod yn anodd i blant gael mynediad at y cyfrifiadur yn enwedig pan mae oedolion neu frodyr a chwiorydd eisiau cael mynediad i'r we ar yr un pryd. Mae cynlluniau ar y gweill i sicrhau ein bod yn rhannu rhai o adnoddau cyfrifiadurol yr ysgol gyda chi mewn cydweithrediad â'r Awdurdod Addysg.

Mi fyddaf yn danfon llythyr atoch drwy wefan yr ysgol bob dydd Gwener er mwyn eich diweddarau a'ch hysbysu o unrhyw newidiadau i'r drefn. Gallwch hefyd e bostio ar prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Cofion gore atoch, R C Williams, Pennaeth, 24/04/2020

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgyraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

Dear Parents / Guardians, Staff and Pupils - we hope you are keeping healthy and safe and continuing to follow the guidelines in responding to the challenge of Coronavirus.



Well-being Discussions - the phone calls at the beginning of this week gave a clear picture that many things are working well with you as families and that you are coping positively in new circumstances and different ways of working. However, some of you found this to be a challenging time. Remember that the school is here to support you and we will communicate weekly with some of you to help you with certain aspects.

Working in Teams - I'm aware that many of you from Years 1, 2, 3, 4, 5 and 6 have started working on the tasks on Teams within Hwb and it's clear that most of you are coping well. The phone calls from the teachers to each home have given us a clear picture of what works well and the aspects that need more help. One of the aspects that needed further clarification was how to upload your work back to Teams so that it can be returned to the teachers once you have completed a task. This video hopefully shows you how to do this <https://www.j2e.com/0111/Erylj/Assignments+Pupilm4/>. Remember there is no need to worry if the system doesn't work for you, some choose to photograph the work and send it as an e-mail to the teachers while others keep the work in a file at home.

The Nursery and Reception activities on the school website are working well and have received a positive response from you.

Computer Equipment - some of you mentioned that it can be difficult for children to access the computer especially when adults or siblings want to access the internet at the same time. Plans are in place to ensure that we share some of the school's computer resources with you in co-operation with the Education Authority.

I will send you a letter through the school website every Friday to update you and inform you of any changes to the procedure. You can also email at prif@ysgolgyraeg.ceredigion.sch.uk

Kindest regards, R C Williams, Headteacher 24/04/2020